# Ymateb i ymgysylltiad milwrol mewn ysgolion

Sut gall ysgolion gyflawni eu cyfrifoldeb dros fuddiannau gorau plant a phobl ifanc wrth ymgysylltu â'r lluoedd arfog a'r diwydiant arfau?

Diogelwch a lles | Didueddrwydd addysgol

Rhyddid cydwybod | Hyrwyddo heddwch a bywyd di-drais




*Er bod angen caniatâd rhieni cyn ymrestru, ychydig sy'n ymwybodol o'r ffeithiau... Dylai ysgolion sicrhau bod plant hyd at 18 oed yn cael eu haddysgu am y risgiau sy'n gysylltiedig â bywyd milwrol. 'Roedd rhai hyfforddwyr yn fwlis sylfaenol... [cafodd recriwtiaid] eu hamlygu am arwyddion gwendid, eu bychanu a'u hynysu'.*


James Florey, troedfilwr, 1999–2000

*Dylai'r DU "gynnwys pwnc addysg heddwch a hawliau dynol fel pwnc sylfaenol yn y system addysg" a "dwysáu ei hymdrechion i fynd i'r afael â bwlio a thrais mewn ysgolion".*

Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn[1]



# Cyflwyniad




Mae'r lluoedd arfog yn ymweld â mwy na 10,000 o ysgolion yng Nghymru, Lloegr a'r Alban bob blwyddyn i gyflwyno eu gwaith.[2] Mae'r ymweliadau'n cyflwyno cyfleoedd gyrfa, ond yn cyflwyno bywyd milwrol fel ffordd i antur ac incwm. Mae'r risgiau a'r realiti yn dueddol o gael eu hepgor.

Mae'r diwydiant arfau yn ymweld ag ysgol ym Mhrydain am bob diwrnod o bob tymor ysgol. Mae cwmnïau fel BAE Systems, Raytheon MBDA, Leonardo a Rolls-Royce[3] yn ennyn diddordeb myfyrwyr

> *Pan esboniais iddyn nhw [y myfyrwyr] bod BAE Systems yn darparu arfau i Saudi Arabia cawsant sioc.*
>
> Athro ysgol uwchradd yn dilyn Sioe Deithiol Ysgolion BAE Systems

mewn technoleg a pheirianneg, ond anaml y byddant yn dryloyw ynghylch effaith eu cynhyrchion mewn gwrthdaro arfog parhaus.

Mae gan ysgolion gyfrifoldeb dros fuddiannau gorau eu myfyrwyr. P'un a ydych yn athro, myfyriwr, rhiant/gofalwr, llywodraethwr neu ymddiriedolwr, mae'n bwysig ystyried sut mae ymgysylltiad milwrol yn

effeithio ar ddiogelwch a lles, didueddrwydd addysgol a rhyddid cydwybod. Y tu hwnt i hynny, mae rhwymedigaeth i hyrwyddo heddwch, goddefgarwch a bywyd di-drais (Nod Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig 4.7 a'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn, Erthygl 29).


> *Er gwaethaf sicrwydd gan y Weinyddiaeth Amddiffyn a'r tri gwasanaeth arfog nad yw'r lluoedd arfog yn recriwtio mewn ysgolion, mae'n amlwg bod llawer o'r gweithgareddau a ddarperir gan aelodau'r lluoedd arfog mewn ysgolion yn ymwneud â recriwtio, ac mae potensial recriwtio ymweliadau yn un o ddibenion allweddol llawer, os nad y rhan fwyaf, o'u hymweliadau ag ysgolion.*[4]
>
> *Ymweliadau'r lluoedd arfog ag ysgolion uwchradd yn yr Alban*
> Forces Watch, 2014

## Diogelwch a lles

### Recriwtio dan 18: pryderon

Mae lluoedd arfog Prydain yn dweud bod angen iddyn nhw recriwtio rhai dan 18 oed er mwyn dal ati.[5] Mae hysbysebu wedi'i dargedu at bobl ifanc o gefndiroedd tlotach.[6] Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn haeru bod cofrestru cynnar yn cynnig cyfleoedd na fyddai pobl ifanc yn eu cael fel arall. Dyma rai pryderon:

**O 18 oed mae recriwtiaid wedi'u cloi'n y system am y pedair blynedd nesaf.**



- Yn ôl Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, mae pob cofrestriad milwrol o dan 18 oed yn mynd yn groes i safonau hawliau dynol sy'n canolbwyntio ar les, hawliau a buddiannau plant.[7]

- Mae'r DU yn un o'r ychydig wledydd ledled y byd sy'n dal i recriwtio pobl 16 oed fel mater o drefn. Mae tri chwarter y gwledydd yn caniatáu dim ond oedolion o 18 oed ac uwch i ymuno, sy'n dod yn norm byd-eang.[8]

**Nid yw tri chwarter y gwladwriaethau ledled y byd bellach yn cofrestru pobl ifanc dan 18 oed i'w lluoedd arfog**



- Ni all recriwt sy'n ymuno yn 16 oed adael y fyddin yn ystod y chwe wythnos gyntaf. O'r diwrnod y byddan nhw'n troi'n 18 efallai y byddan nhw'n cael eu hanfon i ryfel. Yna cânt eu cloi i mewn i'r system am y pedair blynedd nesaf.[9] Ni ellid gosod termau mor gaeth â hyn ar weithiwr sifil o unrhyw oedran.

- Mae byddin Prydain yn unigryw gan ei bod yn dibynnu mor drwm ar bobl ifanc 16 ac 17 oed i lenwi'r rhengoedd. Mae'r grŵp oedran yn cyfrif am chwarter derbyniad blynyddol y fyddin.[10]

- Mae Comisiynwyr Plant y DU yn credu y dylai hyn newid,[11] fel y mae yr Undeb Addysg Cenedlaethol,[12] sefydliadau plant[13] a gweithwyr iechyd proffesiynol.[14]

> *Yn y bôn, roedd yn golygu cymryd dinesydd preifat â'i ewyllys rydd ei hun a chreu dynion creulon - wel, bechgyn creulon.*
>
> Ben Griffin, cyn-filwr
> Y Gatrawd Parasiwt a'r SAS

> *Mae'r lluoedd arfog … yn defnyddio dealltwriaeth o seicoleg y glasoed sy'n gweithio i ymgorffori syniadau cadarnhaol am fywyd milwrol, gan fanteisio ar wendidau datblygiadol ac anghydraddoldeb cymdeithasol.*[15]
>
> *Selling the Military*
> Medact, 2019

## Risgiau a wynebir gan recriwtiaid dan 18 oed

Mae marchnata ar gyfer swyddi milwrol yn addo cyffro, perthyn a sicrwydd economaidd i bobl ifanc, gan annog myfyrwyr i ymuno o 16 oed. Dyma rai ffeithiau am y risgiau:

- Mae'r rhan fwyaf o recriwtiaid o dan 18 oed yn ymuno â'r fyddin, yn enwedig y milwyr traed, sydd yr adran dan y risgiau mwyaf mewn rhyfel.
- Mae 30% o recriwtiaid y fyddin o dan 18 oed yn gadael neu'n cael eu diswyddo cyn iddynt orffen hyfforddiant, sy'n eu gadael yn ddi-waith ac allan o addysg ar unwaith.[16]




- Mae gan recriwtiaid dan 18 oed ganlyniadau iechyd meddwl hirdymor gwaeth na dinasyddion preifat o oedran a chefndir tebyg.[17]

- Mae hyfforddiant yn gwneud defnydd rheolaidd o 'beastings', cosbau grŵp a bychanu – technegau cyflyru a fyddai'n anghyfreithlon mewn gwaith sifil.[19]
- Mae holl recriwtiaid y fyddin 16 oed yn hyfforddi yng Ngholeg Sylfaen y Fyddin, sydd â hanes hir o gwynion ffurfiol o gam-drin gan staff, gan gynnwys ymosodiadau, curo a throseddau rhyw.[20]

> *Os yw llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n llwyr i roi Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ar waith, rhaid iddi nid yn unig fynd ati'n frwd i godi'r oedran recriwtio, ond rhaid iddi hefyd gymryd camau sydd o fewn ei gallu i gyfyngu ar fynediad heb ei reoleiddio i bobl ifanc ar gyfer gweithgareddau recriwtio.*[18]
>
> *Recriwtio plant i'r lluoedd arfog yn ysgolion Cymru,*
> Cymdeithas y Cymod, ForcesWatch
> a Peace Pledge Union, 2021

## Didueddrwydd addysgol

Mae rhai ysgolion yn frwd dros ymgysylltu milwrol tra bod rhai yn ei drin yn ofalus. Beth bynnag fo'r agwedd, mae gan athrawon ddyletswydd i ymdrin â 'materion gwleidyddol pleidiol' yn ddiduedd, a rhaid cynnig cyflwyniad cytbwys o wahanol safbwyntiau gwleidyddol i ddysgwyr (Deddf Addysg, 1996). Er gwaethaf eglurder y gofynion hyn, mae angen barn broffesiynol i benderfynu beth yw 'safbwyntiau pleidiol' a 'gwleidyddol'. Mae Llywodraethau Cymru, Lloegr a'r Alban ill tri wedi galw ar ysgolion i sicrhau eu bod yn cynnig darlun diduedd i bobl ifanc.

> *Mae Together  yn croesawu argymhellion a wnaed gan Senedd yr Alban… [galw] am fwy o graffu, canllawiau ac ymgynghori ynghylch ymweliadau'r lluoedd arfog ag ysgolion yn yr Alban.*[21]
>
> Together (Cynghrair yr Alban dros Hawliau Plant)


Mae canllawiau'r Adran Addysg (2022), ar gyfer ysgolion yn **Lloegr**, yn diffinio 'safbwyntiau gwleidyddol pleidiol' i olygu'r rheini sy'n ymwneud â materion cymdeithasol y gellir arddel mwy nag un persbectif rhesymol arnynt. Cyfeirir at wahanol safbwyntiau ar wrthdaro treisgar dramor fel enghraifft. Mae'r mater hwn yn anochel yn cael ei godi gan ymgysylltiad milwrol â phobl ifanc. Mae oedran recriwtio ac ymddygiad y diwydiant arfau hefyd yn faterion y mae cryn ddadlau cyhoeddus yn eu cylch.

Mae cyngor Llywodraeth **Cymru** yn yr un modd yn pwysleisio'r angen i hyrwyddo addysgu cytbwys.[22] Un o bedwar diben y Cwricwlwm yng Nghymru 2022 yw datblygu dinasyddion moesegol, gwybodus, gan alluogi pobl ifanc i arfer meddwl beirniadol, rhesymu moesol ac empathi at eraill. Mae dysgu am yr amrywiaeth barn am ryfel a'r fyddin yn ganolog i ddealltwriaeth ddemocrataidd.

Yn yr **Alban**, lle mae'n rhaid i athrawon hefyd fod 'yn hyddysg iawn o ran sicrhau dull cytbwys o archwilio materion gwleidyddol',[23] mae cydnabyddiaeth gynyddol bod yn rhaid i sefydliadau addysgol ganiatáu i bobl ifanc fynegi eu barn ac i'r rhain gael y pwys dyledus (Erthygl 12, CCUHP). Mae Llywodraeth yr Alban yn ariannu pob ysgol y wladwriaeth i wneud cais am Wobr Ysgolion Parchu Hawliau UNICEF,[24] sy'n eu rhoi ar y trywydd i hyrwyddo democratiaeth, heddwch a goddefgarwch trwy addysg.

# Rhyddid cydwybod

Mae'r DU wedi ymrwymo i barchu hawl plant i ryddid meddwl, cydwybod a chrefydd (Erthygl 14, CCUHP). Mae rhai plant yn cael eu magu mewn traddodiadau ffydd sy'n credu bod rhyfel yn annerbyniol



**Mae bron i 1/3 o recriwtiaid yn gadael neu'n cael eu diswyddo cyn iddynt orffen hyfforddiant**

neu ddim ond yn dderbyniol mewn sefyllfaoedd cul iawn. Mae angen i fyfyrwyr a'u teuluoedd gael yr hawl i ymarfer eu cydwybod ynglŷn â chwmnïau arfau a gweithgareddau ar thema milwrol.

Mae llawer o blant a theuluoedd ym Mhrydain wedi ffoi rhag rhyfel. Oni bai eu bod yn cael eu trin yn ofalus, gall digwyddiadau fel Cofio eu dieithrio os ydynt yn ei dehongli fel gogoneddu rhyfel neu'n gwyngalchu ei effeithiau.



# Diwylliant o heddwch a bywyd di-drais

Mae addysg heddwch yn cyfoethogi bywyd ysgol. Mae adnoddau a rhaglenni addysg heddwch yn helpu plant i:

- meddwl yn feirniadol am ryfel a'i gost dynol
- dysgu am hawliau dynol, bywyd di-drais a chyfiawnder hinsawdd
- datblygu heddwch mewnol
- datrys gwrthdaro a datblygu sgiliau empathi a gwrando
- darganfod treftadaeth heddwch lleol
- ymarfer dinasyddiaeth weithgar.

> *Mae'r ysgol gyfan yn hapusach, yn fwy goddefgar ac yn fwy parchus o ganlyniad i ddod yn Ysgol Heddwch.*[25]
>
> Dirprwy Brifathro, Ysgol Heddwch yng Nghymru


Yn gynhenid i addysg heddwch mae datblygu meddwl beirniadol, datrys problemau creadigol, cydweithredu, cyfranogi'n weithredol a myfyrio.

I gael rhagor o wybodaeth am sut mae ysgolion yn adeiladu diwylliant o heddwch a bywyd di-drais, darllenwch **Peace at the heart: a relational approach to education in British schools**[26] yn **www.quaker.org.uk/peace-education-case**.



# Camau nesaf

P'un a ydych yn fyfyriwr, athro, rhiant neu ofalwr, llywodraethwr neu ymddiriedolwr, rydym yn eich annog i ddefnyddio'r daflen hon i ddechrau sgyrsiau a darganfod mwy.



## Rhestr wirio ar gyfer ysgolion

- ✓ Sicrhau bod risgiau ymuno â'r lluoedd arfog yn cael eu hesbonio'n ddigonol, yn enwedig ar gyfer pobl ifanc 15 i 18 oed.
- ✓ Rhoi rhybudd ymlaen llaw am unrhyw ymgysylltiad milwrol (gan gynnwys cwmnïau arfau a lluoedd cadetiaid) a darparu dewis arall cyfoethog i fyfyrwyr nad ydynt am gymryd rhan.
- ✓ Nodi a thrafod y materion gwleidyddol a godwyd gan ymweliadau gan y cwmnïau milwrol/arfau a galluogi meddwl beirniadol trwy ddarparu safbwyntiau i'r gwrthwyneb.
- ✓ Datblygu polisi i gynnal hawl myfyrwyr i ryddid cydwybod a mynegiant yn ymwneud â rhyfel ac ymgysylltiad milwrol.
- ✓ Defnyddio digwyddiadau cenedlaethol fel Cofio a Diwrnod y Lluoedd Arfog i alluogi myfyrio ac osgoi gogoneddu rhyfel.
- ✓ Defnyddio cyfleoedd cwricwlaidd (Dinasyddiaeth, Addysg Grefyddol, ABGI, Hanes, YMCD) i hyrwyddo diwylliant o heddwch a bywyd di-drais.
- ✓ Darparu cyfleoedd gweithredol i ddisgyblion ddatblygu sgiliau datrys gwrthdaro a meithrin heddwch trwy gyfryngu gan gyfoedion/ dulliau adferol.

# Adnoddau a chyngor

**Gwefannau sy'n cynnig amrywiaeth o safbwyntiau ar swyddi/ materion milwrol a all helpu gyda chydbwysedd a meddwl beirniadol:**

- Gwybodaeth annibynnol i bobl ifanc sy'n ystyried ymuno: **https://beforeyousignup.info**
- Gwybodaeth am gofrestru milwrol yn 16 oed, hawliau dynol a lles pobl ifanc: **https://home.crin.org/military-recruitment**
- Gwybodaeth am filitareiddio, moeseg filwrol a phryderon hawliau dynol: **www.forceswatch.net**
- Gwybodaeth am y fasnach arfau: **https://caat.org.uk**
- Gwyliwch *The Unseen march* (10 mun) neu raglen ddogfen hyd nodwedd *War school* yn **www.quaker.org.uk/militarism**

**Adnoddau i hyrwyddo diwylliant o heddwch a bywyd di-drais:**

I gael agwedd at Gofio sy'n canolbwyntio ar gofio holl ddioddefwyr rhyfel a chreu byd mwy heddychlon, gweler pabïau gwyn a deunyddiau addysg Undeb yr Addunedau Heddwch yn **https://tinyurl.com/ppu-wp-edu** neu **www.ppu.org.uk**.

> *Hyd yn oed os na chaiff pobl ifanc eu recriwtio'n uniongyrchol i'r lluoedd arfog, maent yn dal i gael eu 'recriwtio' i agweddau o blaid y fyddin, yn rhy aml heb glywed lleisiau a dadleuon i'r gwrthwyneb.*
>
> *Recriwtio plant i'r lluoedd arfog yn ysgolion Cymru*
> Cymdeithas y Cymod, ForcesWatch,
> a Peace Pledge Union, 2021

## Adnoddau am wrthwynebiad cydwybodol a heddychiaeth:

*Sefyll dros eich credoau* – mae'r adnodd hwn yn caniatáu i ddysgwyr Cyfnod Allweddol 2 (Blynyddoedd 5 i 6) edrych ar y dewisiadau oedd yn wynebu pobl yn ystod Y Rhyfel Mawr, a chanlyniadau'r penderfyniadau a wnaed ar gyfer unigolion a'u teuluoedd. Lawrlwythwch o Hwb: **https://bit.ly/Hwb-Sefyll_dros_eich_credoau**.

*Cydwybod a dewis* – y mae'r pecyn hwn yn cefnogi dysgwyr CA3-4 wrth edrych yn feirniadol ar y penderfyniadau anodd yr oedd rhaid i bobl, gan gynnwys gwrthwynebwyr cydwybodol eu gwneud yn ystod y Rhyfel Mawr. Lawrlwythwch o Hwb: **https://bit.ly/Hwb-Cydwybod_a_dewis**.

*Gwrthwynebiad ddoe a heddiw* – adnoddau ar gyfer dysgwyr Cyfnod Allweddol 3–4, yn edrych ar hanes gwrthwynebiad cydwybodol ers y Rhyfel Mawr a'i arwyddocâd cyfoes. Lawrlwythwch o Hwb: **https://bit.ly/Hwb-Gwrthwynebiad_ddoe_a_heddiw**.

*Gwrthwynebwyr cydwybodol* – mae'r adnoddau hyn a gynhyrchwyd gan staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn cynnwys gwybodaeth am wrthwynebwyr cydwybodol yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf ac yn herio'r disgyblion i ystyried y pwysau oedd yn cael ei roi ar unigolion i ymuno a'r lluoedd arfog. Mae'r pecyn yn cynnwys papurau gwreiddiol yn ymwneud ag achosion go iawn. Lawrlwythwch o Hwb: **https://bit.ly/Hwb-Gwrthwynebwyr_cydwybodol**.




*Conscience* (cynradd) a *Conviction* (uwchradd) – deunyddiau addysgu sy'n cefnogi myfyrdod beirniadol ar y cyfyng-gyngor moesol a wynebwyd gan ddynion a merched yn y Rhyfel Byd Cyntaf.

Gallwch archebu copïau caled oddi wrth **https://bookshop.quaker.org.uk** neu lawrlwythwch y ddau becyn am ddim o **www.quaker.org.uk/teaching**.

# Llyfrau a chanllawiau addysgu

**Llyfrau** i bobl ifanc gyda themâu o wrthwynebiad cydwybodol, wynebu ofn a gwahaniaeth, a sefyll dros yr hyn rydych chi'n ei gredu:

Y Rhyfel Byd 1af

> *Across the divide** (2018) gan Anne Booth. Oedran darllen: 1+
>
> *Cowards: The true story of the men who refused to fight* (2003) gan Marcus Sedgwick. Oedran darllen: 10+
>
> *Remembrance** (2002) gan Theresa Breslin. Oedran darllen: 13+


Yr 2il Ryfel Byd

> *In the mouth of the wolf** (2018) gan Michael Morpurgo. Oedran darllen: 7+
>
> *Run rabbit run** (2015) gan Barbara Mitchelhill. Oedran darllen: 9+

Yn sgil yr 2il Ryfel Byd


> *Klaus Vogel and the bad lads* gan David Almond. Oedran darllen: 7+ (oedran diddordeb: pobl ifanc yn eu harddegau, yn arbennig o addas ar gyfer darllenwyr sy'n cael trafferth/anfoddog)


*Gellir ei archebu o siop lyfrau Canolfan y Crynwyr drwy ffonio 020 7663 1000 neu ymweld â **https://bookshop.quaker.org.uk**.










## Canllawiau addysgu:

*Learning for peace* – arweiniad i ddatblygu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol rhagorol yn eich ysgol gynradd. **www.peacemakers.org.uk**

*Pecyn addysgu heddwch* – casgliad o gynulliadau ymarferol ac adnoddau i gefnogi addysgwyr i fabwysiadu ymagwedd addysg heddwch: **www.peace-education.org.uk/teach-peace/fersiwn-cymraeg** neu **https://bit.ly/Hwb-Pecyn_addysgu_heddwch**.

*Wythnos heddwch* – cyflwynwch wythnos o addysg heddwch yn eich ysgol gynradd neu uwchradd. Ar gael yn Gymraeg a Saesneg: **www.quaker.org.uk/peaceweek** neu **https://bit.ly/Hwb-Wythnos_heddwch**.








> *Yn unol â'r cwricwlwm Cymreig newydd, dylid annog dysgwyr i edrych ar gyflwyniadau ynghylch darpar yrfaoedd, gan gynnwys ymgyrchoedd marchnata milwrol, gyda meddwl agored ac ymholgar, gan archwilio'n feirniadol effaith dewisiadau gyrfa posibl ar eu hiechyd a'u lles fel dinasyddion moesegol, gwybodus Cymru a'r byd.*
>
> *Recriwtio plant i'r lluoedd arfog yn ysgolion Cymru*
> Cymdeithas y Cymod, ForcesWatch
> a Peace Pledge Union, 2021

# Adnoddau eraill

**Neges Heddwch ac Ewyllys Da: Pecyn i ysgolion**

Mae hwn yn adnodd i athrawon ar gyfer dysgwyr Cyfnodau Allweddol 2-4. Mae'n edrych ar hanes ac arwyddocâd Neges Heddwch ac Ewyllys Ieuenctid Cymru, ac yn rhoi syniadau i ysgolion am sut i weithio gyda'r Neges heddiw. Lawrlwythwch o Hwb: **https://bit.ly/Hwb-Neges_Heddwch_ac_Ewyllys_Da**.





**Creu newid er mwyn heddwch**

Mae'r Pecyn Cymorth hwn yn cefnogi pobl ifanc o Gyfnod Allweddol 3 ymlaen wrth feddwl beth mae heddwch yn ei olygu iddyn nhw, a sut medran nhw helpu i wneud eu cymuned leol a'r byd yn fwy heddychlon. Lawrlwythwch o Hwb: **https://bit.ly/HWb-Creu_newid_er_mwyn_heddwch**.

**Cerdded y Daith Gerdded Fyd-eang: pecyn i gefnogi dysgu am Nod Datblygu Cynaliadwy 16: Heddwch, Cyfiawnder a Sefydliadau Cryf**

Y mae'r pecyn adnoddau hwn ar gyfer athrawon yn cynnwys cynlluniau gwersi, canllawiau ac amrywiaeth o adnoddau rhyngweithiol i gefnogi dysgwyr rhwng 9 ac 14 mlwydd oed wrth archwilio Nod Datblygu Cynaliadwy 16: Heddwch, Cyfiawnder a Sefydliadau Cryf – a gweithredu arno. Lawrlwythwch o Hwb: **https://bit.ly/Hwb-Cerdded_y_daith_gerdded_fyd-eang**.




**Ymgyrchu dros Newid yn Ddi-drais**

Pecyn i ddysgwyr 8 – 14 blwydd oed sydd yn edrych ar gysyniadau trais a di-dreisedd ac yn darparu achosion enghreifftiol sydd yn galluogi dysgwyr i archwilio pa mor effeithiol yw gweithredu di-drais. Yn cynnwys 11 o achosion enghreifftiol o Gymru.
**https://bit.ly/Ymgyrchu_dros_newid_yn_ddi-drais**.

## Ewch ymhellach

I ddod o hyd i ddarparwr hyfforddiant Cyfryngu Cyfoedion a sefydliadau sydd wedi ymrwymo i ddatrys gwrthdaro a dulliau adferol: **www.peermediationnetwork.org.uk**

**Cynllun Ysgolion Heddwch Cymru:** Cynllun sy'n cefnogi ysgolion wrth ddatblygu heddwch fel thema trawsgwricwlaidd ac fel rhan o fywyd pob dydd yr ysgol, gan hybu ethos cadarnhaol, meddwl beirniadal, sgiliau creadigol a datrys problemau yn ddi-drais: **www.wcia.org.uk/cy/dysgu-byd-eang/ysgolion-heddwch-yng-nghymru**

**Gwobrau Ysgolion Heddwch:** Gwobrau blynyddol sydd yn digwydd yn Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen ac yn dathlu plant a phobl ifanc sydd wedi cyfrannu at heddwch, cyfiawnder hinsawdd a chydraddoldeb yn eu hysgol, grŵp ieuenctid, cymuned leol neu yn y byd ehangach. **www.wcia.org.uk/cy/dysgu-byd-eang/unigolion/gwobrau-heddychwyr-ifanc**



# Ôlnodiadau


1 UN Committee on the Rights of the Child (CRC), Consideration of Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CRC), Ystyried adroddiadau a gyflwynwyd gan Bartïon Gwladwriaethau o dan Erthygl 8 o'r Protocol Dewisol i'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn ar gynnwys plant mewn gwrthdaro arfog: Sylwadau i gloi, y Deyrnas Unedig, CRC/C/OPAC/GBR/CO/1, 2008, https://undocs.org/CRC/C/OPAC/GBR/CO/1, para. 20; UN CRC, Sylwadau i gloi ar bumed adroddiad cyfnodol y Deyrnas Unedig, CRC/C/GBR/CO/5, 2016, https://undocs.org/CRC/C/GBR/CO/5, para. 49

2 Forces Watch, 2019, 'Data on military visits and activities in schools'

3 *Independent*, 2018, 'Arms companies spending millions each year promoting brands in UK schools'

4 ForcesWatch, 2014, 'Armed forces visits to secondary schools in Scotland'

5 Royal United Services Institute (RUSI, 2021, 'Has the time come for an all-adult army'?

6 Child Rights International Network (CRIN), 2019, 'Conscription by poverty? Deprivation and army recruitment in the UK'

7 UN CRC, 2016, 'General comment on adolescence on the implementation of the rights of the child during adolescence'

8 CRIN, 'Military enlistment', accessed 14/11/22

9 The Army Terms of Service Regulations 2007, no. 3382 (as amended, 2008, no. 1849)

10 UK Ministry of Defence, 2021 *UK armed forces biannual diversity statistics*

11 Comisiynwyr Plant y DU, 2020 'Report … to the United Nations Committee on the Rights of the Child'

12 CRIN, 2021, Letter to Secretary of State for Defence

13 Ibid.

14 Medact, 2016, 'The recruitment of children by the UK armed forces: A critique from health professionals'; *BMJ Military Health*, 2022, Vol. 0 No. 0, 'Childhood trauma: a major risk factor in the military recruitment of young people'.

15 Medact, 2019, 'Selling the Military'

16 CRIN, 2021, 'British armed forces: Why raising the recruitment age would benefit everyone'

17 CRIN, 2021, 'Recent research on outcomes for junior armed forces entrants: A response'

18 Cymdeithas y Cymod, ForcesWatch a Peace Pledge Union, 2021, Recriwtio plant i'r lluoedd arfog yn ysgolion Cymru

19 Veterans for Peace, 2017, 'First Ambush? Effects of military training and employment'

20 CRIN, 2022 'British army: Welfare concerns at the Army Foundation College, Harrogate'

21 Together Scotland, 2018, 'Together welcomes Scottish Parliament recommendations on armed forces visits to schools'

22 Llywodraeth Cymru, 2021, 'Addysgu addysg, dinasyddiaeth a gwleidyddiaeth: canllaw i ymarferwyr ar aros yn ddiduedd.'

23 Education Scotland, 2013, Curriculum for Excellence Briefing 14, section 4

24 www.unicef.org.uk/rights-respecting-schools/funding-for-schools-in-scotland, wedi'i gyrchu: 9 Tachwedd 2022

25 Ysgolion Heddwch yng Nghymru: www.wcia.org.uk/cy/dysgu-byd-eang/ysgolion-heddwch-yng-nghymru

26 Quakers in Britain, 2022, Peace at the Heart: a relational approach to education in British schools

# Ymateb i ymgysylltiad milwrol mewn ysgolion

## Sut gall ysgolion gyflawni eu cyfrifoldeb dros fuddiannau gorau plant a phobl ifanc wrth ymgysylltu â'r lluoedd arfog a'r diwydiant arfau?

Mae'r lluoedd arfog yn ymweld â mwy na 10,000 o ysgolion yng Nghymru, Lloegr a'r Alban bob blwyddyn i gyflwyno eu gwaith. Mae'r ymweliadau'n cyflwyno cyfleoedd gyrfa, ond yn cyflwyno bywyd milwrol fel ffordd i antur ac incwm. Mae'r risgiau a'r realiti yn dueddol o gael eu hepgor.

Mae Crynwyr yn cael eu harwain gan eu ffydd i weithredu dros heddwch parhaol a chyfiawnder cymdeithasol.



Cyrchwch y ddogfen hon ac adnoddau eraill ar-lein yn **www.quaker.org.uk/peace-education-case**.

www.quaker.org.uk
www.crynwyr.cymru

CRYNWYR

Britain Yearly Meeting of the Religious Society of Friends (Quakers)
Rhif elusen gofrestredig 1127633
Friends House, 173 Euston Road, London, NW1 2BJ

0885.QPSW.0922